# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Conwy

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Conwy i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Mae Conwy yn parhau i fodloni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac un ohonynt yn rhannol.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Conwy 8 ohonynt yn llawn, 1 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 1 ohonynt.

Gwelwyd rhywfaint o welliant yn y defnydd o'r gwasanaeth a'i gyrhaeddiad yng Nghonwy yn yr ail flwyddyn o'r chweched fframwaith, er bod lleihad amlwg mewn capasiti ac adnoddau. Gan ymateb i flaenoriaethau corfforaethol a phwysau ariannol ar y gwasanaeth, bydd proses ailstrwythuro yn newid trefniadau rheoli a staffio proffesiynol y gwasanaeth yn 2019/20. Bydd y tîm rheoli ar ei newydd wedd yn datblygu strategaeth gwasanaethau llyfrgell newydd, gan geisio sicrhau y gall y gwasanaeth gyflawni'r blaenoriaethau a nodir a'r arbedion angenrheidiol. Yn draddodiadol, mae Conwy wedi perfformio'n gryf yn erbyn y fframweithiau llyfrgelloedd ac wrth gyflawni er budd ei chymunedau; fodd bynnag, bydd cael adnoddau digonol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall barhau i ddatblygu ac ymateb i anghenion defnyddwyr sy'n newid. Dylai'r awdurdod ystyried ei fuddsoddiad yn y gwasanaeth yn y dyfodol yn ofalus er mwyn sicrhau y gall gynnal ei gyflawniadau ac adeiladu arnynt.

- Mae pob man gwasanaeth yn parhau i ddarparu cymorth da ar gyfer datblygiad unigol, ac ar gyfer iechyd a lles. Mae 97% o oedolion yn dweud bod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' ar y cyfan.
- Mae nifer y rhai sy'n cael hyfforddiant i ddefnyddwyr ac sy'n mynychu digwyddiadau / gweithgareddau wedi ymsefydlogi, gyda'r perfformiad yn parhau ar lefelau 2017/18 fwy neu lai.
- Mae'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd wedi gwella ar y cyfan, yn enwedig o ran ymgysylltu'n ddigidol â gwasanaethau.
- Mae'r gyllideb ar gyfer deunyddiau wedi gostwng yn sylweddol yn 2018/19, ac nid yw Conwy yn cyflawni'r targed ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau darllen cyfredol (DA 9) mwyach. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi parhau i fuddsoddi mewn adnoddau Cymraeg (DA 10) ac yn dal i gyflawni'r targed o ran hyn.
- Mae lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng ymhellach, yn unol â'r cyfyngiadau cyllidebol, ond mae'r gwasanaeth yn dal i gyflawni'r targed ar gyfer staff proffesiynol. Mae'r perfformiad o ran hyn yn dal i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru o gymharu ag eraill, ond bydd y strwythurau staffio newydd, a gaiff eu rhoi ar waith yn 2019/20, yn effeithio ar gyflawni targedau ymhellach yn y datganiad y flwyddyn nesaf.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi parhau i ostwng, ac mae hyn yn achos pryder os yw'r gwasanaeth am barhau i sicrhau'r canlyniadau cyflawni i'w gymunedau.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Conwy yn parhau i gyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, gan gyflwyno datganiad trylwyr a manwl er mwyn hwyluso'r broses asesu. Er ei bod yn amlwg bod cyfeiriad strategol presennol y gwasanaeth wedi'i gynllunio'n dda, nid oes unrhyw ddogfen gyhoeddedig gyfredol ar gael o hyd i hysbysu defnyddwyr o'r strategaeth ehangach ar gyfer y gwasanaeth hwn, ac felly mae HG 12 yn dal i gael ei chyflawni'n rhannol. Nodir y bydd y tîm rheoli llyfrgelloedd yn gweithio ar ddatblygu strategaeth newydd dros y flwyddyn sydd i ddod, ac efallai y caiff HG 12 ei chyflawni'n llawn yn 2019/20. Mae Conwy yn parhau i gyflawni'n effeithiol mewn meysydd eraill, gan ymgynghori'n helaeth ar ddatblygiadau mewn gwasanaethau, ac arwain y gwaith o ddatblygu system gofrestru ar-lein system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Conwy yn cyflawni 8 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 1.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau y pen o'r boblogaeth | x | |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth | x | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg | ✔ | |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth | x | |

| | | |
|---|---|---|
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✔ | |
| b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod | ✔ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff y pen o'r boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth | ✔ | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |

Yn 2018/19, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau ac adlewyrchu perfformiad gwasanaethau unigol, ni chafodd e-adnoddau a gaffaelwyd yn ganolog eu cynnwys yn yr adroddiad yn erbyn eitemau a gaffaelwyd ar gyfer DA 9 ar y cam asesu. Mae hyn wedi effeithio ar berfformiad Conwy ac, ynghyd â'r gostyngiad yn y gwariant ar ddeunyddiau, nid yw DA 9 yn cael ei gyflawni mwyach.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cwblhaodd Conwy ei arolygon o ddefnyddwyr i oedolion a phlant ym mis Tachwedd 2018, gan ddangos bod y lefelau uchel o foddhad gyda'r gwasanaeth yn parhau, gyda dangosyddion cadarnhaol o'r effaith y mae'r gwasanaeth yn ei chael ar fywydau pobl.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 90% | *=9/13* | 60% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 87% | *9/15* | 38% | 88% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 90% | *=18/20* | 80% | 97% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Conwy dair astudiaeth achos o'r fath:

- Darllen ar y Cyd – effaith y grŵp Darllen ar y Cyd i ddefnyddwyr gwasanaeth MIND ar un unigolyn â phroblemau iechyd meddwl. O fod yn bryderus am ymuno â'r grŵp ar y

dechrau, daeth yn fwy hyderus, gan gyfrannu'n weithredol at sesiynau, datblygu ymdeimlad cryfach o'i hun, a darganfod hoffter o ddarllen. Ers hynny mae wedi cwblhau hyfforddiant i redeg ei grŵp ei hun, ac yn teimlo bod y profiad wedi rhoi bywyd yn ôl iddi, ond bywyd gwell.

- Clwb Codio – buddiannau mynychu Clwb Codio grŵp Llyfrgell Conwy i un fyfyrwraig. Gwnaeth ddatblygu ei gwybodaeth a'i sgiliau a magu hyder, gan gael budd o gymorth ac anogaeth staff y llyfrgell.
- Partneriaeth Ysgol – cydweithio rhwng Llyfrgell Llandudno ac ysgol uwchradd leol, o'r prosiect 'Troi'r Dudalen' cychwynnol (sy'n annog disgyblion blwyddyn 7 i ddarllen a defnyddio'r llyfrgell), i 'Mad About Books' sef clwb amser cinio wythnosol i bob oedran a gallu, sy'n annog y plant i roi cynnig ar genres newydd, a gwneud defnydd gwell o'r llyfrgell.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Conwy ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau.
Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2017/18* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 82% | *8/15* | 24% | 82% | 96% | *83%* |
| c) iechyd a lles | 74% | *7/15* | 33% | 62% | 94% | *76%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | 97% | *=7/15* | 90% | 97% | 100% | *98%* |
| DA 2 – Boddhad cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 91% | *=6/14* | 81% | 91% | 98% | *89%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 98% | *=9/14* | 93% | 99% | 100% | *98%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 95% | *1/13* | 65% | 91% | 95% | *95%* |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol | 97% | *=7/14* | 93% | 97% | 99% | *97%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.0 | *=11/13* | 8.5 | 9.3 | 9.5 | *8.7* |
| DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth | 30 | *12/22* | 13 | 30 | 208 | *31* |
| c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth | 280 | *7/22* | 15 | 199 | 433 | *278* |
| DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth | 176 | *18/22* | 91 | 295 | 689 | *177* |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth | 3,300 | *17/22* | 2,596 | 3,969 | 7,170* | *3,270* |
| b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth | 1,562 | *4/22* | 345 | 885 | 2,205 | *1,270* |
| c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth | 163 | *8/22* | 58 | 150 | 251 | *165* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth[2] | 857 | *7/22* | 95 | 602 | 1,424 | *802* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth[3] | 11 | *5/22* | 5 | 10 | 14 | *11* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 33% | *=4/22* | 14% | 25% | 63% | *35%* |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 65 | *5/21* | 3 | 30 | 214 | *68* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 1,989 | *8/21* | 90 | 1,477 | 9,806 | *1,806* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth | £13,655 | *7/22* | £7,181 | £12,145 | £19,449 | *£14,128* |
| b) % ar staff | 72% | *7/22* | 47% | 62% | 78% | *68%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 11% | *17/22* | 8% | 13% | 21% | *15%* |
| % ar offer ac adeiladau | 1% | *21/22* | 0.4% | 4% | 25% | *2%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 16% | *11/22* | 0.3% | 16% | 37% | *15%* |
| c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth | £5,529 | *4/22* | £0 | £467 | £8,829 | *£1,168* |
| DA 15 – Cost net am bob ymweliad | £2.19 | *5/22* | £1.18 | £1.82 | £2.52 | *£2.41* |
| DA 16 – Oriau agor[4] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.25% | *22/22* | 0.00% | 0.00% | 0.25% | *0.48%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0.59% | *12/20* | 0.00% | 0.28% | 7.99% | *0.05%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân*
*[2] fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo*
*[3] fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl* *[4] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Conwy ei arolygon o ddefnyddwyr i oedolion a phlant yn ystod hydref 2018 yn ôl y bwriad, gyda'r canfyddiadau yn adlewyrchu'n dda ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles. Bu rhai mân newidiadau yn y niferoedd sy'n cael budd o'r hyfforddiant a gynigir gan y gwasanaeth, ond mae perfformiad wedi parhau ar yr un lefel â 2017/18 fwy neu lai, ac mae'n cyrraedd y lefel ganolrifol y pen o'r boblogaeth yng Nghymru neu uwchlaw hynny. Mae canran y rhai sy'n mynychu a gafodd eu helpu i gyflawni eu nodau wedi gwella, sef 90% erbyn hyn.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Conwy yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, gyda 10 llyfrgell gangen (y mae pump ohonynt wedi'u cefnogi gan y gymuned) ar agor am 10 awr neu fwy yr wythnos. Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau / gweithgareddau a drefnir gan y llyfrgell yn debyg i 2017/18, gyda'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'r 10 man gwasanaeth. Mae defnydd mewn meysydd eraill naill wedi gwella neu wedi parhau ar yr

un lefel, ar wahân i leihad bach yn nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir. Bu cynnydd nodedig yn nifer yr ymweliadau â gwefan y gwasanaeth, a nifer y lawrlwythiadau electronig, sy'n arwydd o dwf cynyddol o ran ymgysylltu defnyddwyr â'r gwasanaeth yn ddigidol.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[i]

Mae newid yn y ffordd yr asesir eitemau a gaffaelwyd, ynghyd â gostyngiad o bron 32% yng ngwariant Conwy ar ddeunyddiau, yn golygu nad yw dangosyddion ansawdd ar gyfer caffael / gwario ar stoc (DA 9) yn cael eu cyflawni yn 2018/19. Fodd bynnag, mae gwariant cymesur ar ddeunyddiau i blant ac adnoddau Cymraeg wedi parhau, a pharheir i gyflawni'r targed ar gyfer DA 10. Gellir gweld effaith diogelu gwariant yn y meysydd hyn yn y cynnydd yn nifer yr eitemau a fenthycir, mewn gwrthgyferbyniad â'r lleihad yn nifer yr eitemau i oedolion a fenthycir. Mae'r perfformiad o ran cyflenwi ceisiadau yn parhau i fodloni'r gofynion, a hynny ar lefel well, gyda'r ffigurau yn seiliedig ar geisiadau wedi'u cyflenwi yn yr awdurdod. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi parhau ar lefelau 2017/18, ond nodir y bydd hyn yn gostwng yn 2019/20 gan adlewyrchu patrymau defnydd sy'n newid, wrth i gwsmeriaid ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain a'r gwasanaeth Wi-Fi am ddim.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi parhau i ostwng, gan adlewyrchu effaith yr arbedion effeithlonrwydd ariannol y gofynnwyd i'r gwasanaeth eu gwneud ond, o gymharu ag eraill, mae'r perfformiad yn dal ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Nodir bod y strwythur staffio wedi cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth mewn sefyllfa i barhau i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol a hefyd wneud yr arbedion angenrheidiol ar yr un pryd. Mae lefelau staffio proffesiynol wedi parhau ar yr un lefel yn 2018/19 ac mae'r targed o ran hyn yn dal i gael ei gyflawni, ond bydd yr ymarfer ailstrwythuro staff yn arwain at newidiadau i'r tîm rheoli a phroffesiynol dynodedig yn 2019/20. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran hyfforddiant / datblygiad y staff, ond ar lefel is. Mae gweithgarwch gwirfoddolwyr wedi parhau ar yr un lefel, gyda 65 o unigolion yn cyfrannu tua 30 awr yr un, ac mae Conwy yn treialu ac yn arwain Ffrindiau Darllen, sef prosiect cenedlaethol a arweinir gan wirfoddolwyr, sy'n cynnwys pobl hŷn a'r rhai sy'n byw gyda dementia.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng unwaith eto yn 2018/19, ond erys buddsoddiad yn y gwasanaeth uwchlaw'r lefel ganolrifol. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi parhau ar yr un lefel, ac mae'r targed o ran hyn yn dal i gael ei gyflawni.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Conwy yn amlinellu'r ffordd y gall gwasanaethau llyfrgell gyfrannu'n eang at strategaethau cenedlaethol, gydag ystyriaeth fanylach o'i rôl benodol i gyflawni strategaethau rhanbarthol lleol a Chynllun Corfforaethol Conwy. Tynnir sylw at waith y llyfrgell o ran cefnogi llesiant meddyliol, grymuso cymunedau, agendâu iechyd, mentrau cynhwysiant digidol a thlodi, llythrennedd, sgiliau a dysgu.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Conwy yn cyfeirio at gam olaf y gwaith ar ei Strategaeth Moderneiddio Llyfrgelloedd, ac adroddiad cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y gwaith hwn, a ddaw i ben pan gaiff y Ganolfan Ddiwylliannol newydd yng Nghonwy ei hagor yn hydref 2019. Nodir bod adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgell deithiol a'r gwasanaeth cartref yn parhau, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau 2019, gyda chynigion i uno'r ddau wasanaeth a gosod rhai cyfyngiadau ar ddarpariaeth y llyfrgell deithiol. Nid yw'r awdurdod wedi cytuno'n ffurfiol ar ganlyniadau'r adolygiad hwn eto, ond cânt eu hadlewyrchu yn natganiad 2019/20 y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth hefyd yn nodi diwygiadau i'w strwythur staffio, mewn ymateb i flaenoriaethau corfforaethol a'r angen i wneud arbedion. Sefydlwyd tîm rheoli llyfrgell newydd fel rhan o'r ymarfer ailstrwythuro hwn, a fydd yn mynd ati i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer y gwasanaeth dros y flwyddyn sydd i ddod.

## 6 Casgliad

Gwelwyd rhywfaint o welliant yn y defnydd o'r gwasanaeth a'i gyrhaeddiad yng Nghonwy yn yr ail flwyddyn o'r chweched fframwaith, er bod lleihad amlwg mewn capasiti ac adnoddau. Gan ymateb i flaenoriaethau corfforaethol a phwysau ariannol ar y gwasanaeth, bydd proses ailstrwythuro yn newid trefniadau rheoli a staffio proffesiynol y gwasanaeth yn 2019/20. Bydd y tîm rheoli ar ei newydd wedd yn datblygu strategaeth gwasanaethau llyfrgell newydd, gan geisio sicrhau y gall y gwasanaeth gyflawni'r blaenoriaethau a nodir a'r arbedion angenrheidiol. Yn draddodiadol, mae Conwy wedi perfformio'n gryf yn erbyn y fframweithiau llyfrgelloedd ac wrth gyflawni er budd ei chymunedau; fodd bynnag, bydd cael adnoddau digonol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall barhau i ddatblygu ac ymateb i anghenion defnyddwyr sy'n newid. Dylai'r awdurdod ystyried ei fuddsoddiad yn y gwasanaeth yn y dyfodol yn ofalus er mwyn sicrhau y gall gynnal ei gyflawniadau ac adeiladu arnynt.

---

[i] Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.